



CWMPAS: Bwrdd Diogelu Oedolion Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru

Cylch Gorchwyl

CWMPAS (*Cydweithio a Chynnal Partneriaeth wrth Ddiogelu Oedolion*) yw'r enw ar gyfer y Bwrdd Diogelu Oedolion Rhanbarthol yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru, sy'n cwmpasu Ceredigion, Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro a Phowys.

Diben

Mae Adran 134 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn gofyn bod Byrddau Diogelu Oedolion Rhanbarthol yn eu lle. Mae'r Byrddau hyn yn rhoi sail statudol i ddiogelu oedolion, yn debyg i'r hyn ar gyfer diogelu plant.

Partneriaeth amlasiantaethol a statudol yw'r Bwrdd Diogelu Oedolion Rhanbarthol, a'i brif amcan yw sicrhau bod trefniadau a phartneriaid diogelu lleol yn gweithredu i helpu ac amddiffyn oedolion sydd mewn perygl o gael eu cam-drin a'u hesgeuluso ledled y rhanbarth.

Yn ôl y Ddeddf, dyma amcanion Bwrdd Diogelu Oedolion:

- Amddiffyn oedolion yn ei ardal sydd ag anghenion i ofalu a chynorthwyo (p'un a yw awdurdod lleol yn bodloni unrhyw un o'r anghenion hynny ai peidio): a'u bod yn profi, neu mewn perygl o brofi, camdriniaeth neu esgeulustod,
- Atal yr oedolion hynny yn ei ardal a grybwyllwyd uchod rhag bod mewn perygl o gael eu cam-drin neu'u hesgeuluso

Mae'r Bwrdd yn cydnabod bod oedolion sydd mewn perygl yn fwy tebygol o gael eu hamddiffyn yn briodol pan fydd asiantaethau'n gweithio mewn ffordd hollgynhwysol, gydlynus a chyson.

Y Bwrdd Diogelu Oedolion Rhanbarthol yw'r broses allweddol ar gyfer cytuno sut bydd asiantaethau'n cydweithredu i ddiogelu a hyrwyddo lles oedolion sydd mewn perygl ac am sicrhau effeithiolrwydd yr asiantaethau hynny. Wrth gyflawni ein cyfrifoldebau, bydd Bwrdd CWMPAS yn sicrhau nad yw ffiniau sefydliadol rhwng gweithwyr proffesiynol, asiantaethau a sectorau yn rhwystrau rhag diogelu oedolion sydd mewn perygl.

Datganiad Cenhadaeth

Mae Bwrdd Diogelu Oedolion Rhanbarthol CWMPAS yn mabwysiadu ymagwedd dim goddefgarwch at gam-drin ac esgeuluso oedolion, ac mae wedi ymrwmo i sicrhau bod yr holl asiantaethau'n gweithio gyda'i gilydd i atal camdriniaeth a gwneud yn siŵr bod trefniadau cadarn ar waith i ymateb pan fydd digwyddiadau'n codi. Mae hyn yn cynnwys

ymrwymiad i weithio gydag oedolion a'u cynrychiolwyr i gyflawni'r canlyniadau y maent eu heisiau a hyrwyddo annibyniaeth, dewis, rheolaeth, adferiad a lles.

Gweledigaeth

Gweledigaeth Bwrdd Diogelu Oedolion Rhanbarthol CWMPAS yw y dylai'r holl ddinasyddion fyw eu bywydau yn rhydd rhag trais, camdriniaeth, esgeulustod a chamfanteisio a bod eu hawliau'n cael eu gwarchod. Mae'r holl waith diogelu yn sensitif i barch at wahaniaethau o ran hil, ethnigrwydd, diwylliant, gallu, ffydd a chyfeiriadedd rhywiol, ac mae wedi'i wreiddio'n gadarn ynddynt. Mae deall ac ymateb i anghenion yr holl randdeiliaid, gan gynnwys oedolion sydd mewn perygl, gofalwyr, darparwyr gwasanaeth a'r gymuned ehangach, yn hanfodol i hyrwyddo gweledigaeth y Bwrdd.

Dibenion Rhanbarthol a Lleol

Mae daearyddiaeth a phoblogaeth y rhanbarth yn amrywiol. Mae Bwrdd CWMPAS yn cydnabod yr angen i gynnal ffocws lleol a rhanbarthol i ymateb i'r amrywiaeth hon.

Y diben rhanbarthol yw cydlynu cyfeiriad strategol, cydweithio, cysondeb a gwella ymarfer ledled y rhanbarth. Ar y cyd ag is-grwpiau rhanbarthol, bydd Bwrdd CWMPAS yn sicrhau effeithiolrwydd yr hyn sy'n cael ei wneud gan bob unigolyn neu gorff a gynrychiolir ar y Bwrdd.

Y diben lleol yw cydlynu ymarfer lleol a gweithio tuag at sicrhau effeithiolrwydd trefniadau lleol i ddiogelu a hyrwyddo lles oedolion sydd mewn perygl.

Amcanion Strategol

Dyma'r Amcanion Strategol sy'n ategu'r weledigaeth hon:

- Trwy lywodraethu trylwyr, byddwn yn sicrhau bod gwasanaethau diogelu ar gyfer oedolion sydd mewn perygl yn cael eu cydlynu'n effeithiol, fel y gallant ymateb i ddatblygiadau lleol a chenedlaethol mewn diogelu yn ôl yr angen.
- Sicrhau bod pawb yn gwybod am ddiogelu oedolion
- Gwella gwaith amlasiantaethol yn barhaus i ddiogelu a hyrwyddo lles oedolion sydd mewn perygl, ac ysgogi rhagoriaeth trwy systemau cadarn o her broffesiynol, sicrhau ansawdd, dysgu, gan gynnwys Adolygiadau Ymarfer Oedolion.
- Sicrhau ymgysylltu effeithiol ag oedolion, teuluoedd, gofalwyr, ymarferwyr rheng flaen, y gymuned, aelodau etholedig, sefydliadau statudol a'r sector gwirfoddol i sicrhau cyfranogiad ystyrlon yng ngweithgarwch Bwrdd CWMPAS.

Swyddogaethau Diogelu

- Cydweithredu â Byrddau Diogelu eraill a'r Bwrdd Diogelu Cenedlaethol Annibynnol gyda bwriad i:
 - Gyfrannu at ddatblygu ac adolygu polisïau a gweithdrefnau cenedlaethol ar gyfer Byrddau Diogelu
 - Gweithredu polisïau a gweithdrefnau cenedlaethol a argymhellir gan y Bwrdd Diogelu Cenedlaethol Annibynnol, ac arweiniad a chynngor sy'n cael eu rhoi ganddo
- Codi ymwybyddiaeth ledled ardal Bwrdd CWMPAS am amcanion y Bwrdd, a sut y gellir cyflawni'r rhain

- Adolygu effeithiolrwydd y camau a gymerwyd gan Fwrdd CWMPAS i gyflawni amcanion y Bwrdd
- Cynnal adolygiadau, archwiliadau ac ymchwiliadau perthnasol
- Gwneud argymhellion yng ngoleuni'r adolygiadau hynny, i fonitro i ba raddau y caiff yr argymhellion hynny eu cyflawni, a chymryd camau priodol ble dangosir nad yw amcanion y Bwrdd yn cael eu cyflawni
- Lledaenu gwybodaeth am yr argymhellion hynny i Fyrddau Diogelu priodol eraill a'r Bwrdd Cenedlaethol
- Hwyluso ymchwil i amddiffyn ac atal oedolion sydd mewn perygl o niwed rhag cael eu cam-drin a'u hesgeuluso
- Adolygu'r anghenion hyfforddi a hyrwyddo darpariaeth hyfforddiant addas ar gyfer pobl sy'n gweithio i gyflawni amcanion Bwrdd CWMPAS
- Trefnu a hwyluso rhaglen flynyddol o fforymau proffesiynol amlasiantaethol
- Cydweithredu neu weithredu ar y cyd ag unrhyw gorff tebyg sydd wedi'i leoli mewn unrhyw awdurdodaeth ble mae Bwrdd CWMPAS yn ystyried y bydd hyn yn ei gynorthwyo i gyflawni ei amcanion
- Cael cyngor neu wybodaeth arbenigol sy'n berthnasol i gyflawni amcanion Bwrdd CWMPAS
- Cynnal Adolygiadau Ymarfer Oedolion yn unol â rheoliad 4 Rheoliadau Byrddau Diogelu (Swyddogaethau a Gweithdrefnau) (Cymru) 2015 o dan arweiniad 'Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl – cyfrol 3 – Adolygiadau Ymarfer Oedolion'
- Ychwanegu gwerth a gwella'r canlyniadau ar gyfer oedolion sy'n agored i niwed y mae angen eu diogelu a'u hamddiffyn
- Datblygu a darparu cyfeiriad strategol rhanbarthol
- Cyfeirio a monitro grwpiau rhanbarthol ar gyfer hyfforddiant a datblygu'r gweithlu; polisïau a gweithdrefnau; cyfathrebu ac ymgynghori; ac adolygiadau ymarfer oedolion.
- Datblygu a monitro fframwaith rheoli perfformiad
- Darparu her a chymorth i asiantaethau rhanbarthol ac Awdurdodau Lleol
- Darparu'r rhyngwyneb gyda Llywodraeth Cymru a'r Bwrdd Diogelu Cenedlaethol
- Cytuno ar y gyllideb, a'i rheoli.

Swyddogaethau TEMCDThRh

Mae Deddf Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (TEMCDThRh) (Cymru) 2015 yn gofyn am sefydlu Bwrdd Gweithredol TEMCDThRh.

Mae aelodaeth bresennol Bwrdd Gweithredol Diogelu Plant (CYSUR) a Diogelu Oedolion (CWMPAS) Canolbarth a Gorllewin Cymru yn bodloni gofynion y Ddeddf TEMCDThRh o fewn y cyd-destun ei fod yn cynnwys cyfarwyddwyr statudol ac uwch weithredwyr o sefydliadau partner perthnasol. Felly, yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru, bydd swyddogaethau a chyfrifoldebau Bwrdd Gweithredol TEMCDThRh yn cael eu cyflawni gan y Bwrdd Gweithredol Diogelu Rhanbarthol a bydd busnes craidd TEMCDThRh yn cael ei ymgorffori yn agenda drawsbynciol ar y cyd y Bwrdd Gweithredol Diogelu Rhanbarthol.

I gyflawni eu cyfrifoldebau TEMCDThRh, bydd Bwrdd Gweithredol Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru:

- Yn darparu arweinyddiaeth gref, gweledigaeth a ffocws strategol ar gyfer pob math o drais yn erbyn menywod, yn unol â'r hyn a ddiffinnir yn y Ddeddf, sy'n cynnwys trais ar sail anrhydedd, priodas dan orfod, anffurfio organau cenedlu benywod (FGM), masnachu pobl, trais rhywiol a cham-fanteisio.
- Yn darparu strwythur llywodraethu i oruchwylio cynnydd y strategaeth TEMCDThRh rhanbarthol a fydd yn cael ei datblygu a'i rhoi ar waith gan Grŵp Llywio Strategol MAWW
- Yn cymeradwyo ac yn monitro strategaeth ranbarthol TEMCDThRh.

Llywodraethu a Chraffu

Rhaid i bob asiantaeth gadw atebolrwydd am effeithiolrwydd eu trefniadau i ddiogelu a hyrwyddo lles oedolion sydd mewn perygl. Rôl pob asiantaeth ar Fwrdd CWMPAS fydd herio a chraffu ble nad yw'r trefniadau'n effeithiol. Wedyn, bydd yr asiantaethau perthnasol yn atebol i weithredu i wella'r effeithiolrwydd.

Disgwylir y bydd yr asiantaethau perthnasol yn dangos i Fwrdd CWMPAS bod y camau a gymerwyd wedi sicrhau'r effeithiolrwydd gofynnol.

Bydd gofyn i bob asiantaeth gyflwyno adroddiad blynyddol ar effeithiolrwydd y trefniadau i ddiogelu a hyrwyddo lles oedolion sydd mewn perygl o fewn eu hasiantaeth.

Rhaid i bob asiantaeth adrodd am waith Bwrdd CWMPAS trwy drefniadau llywodraethu a chraffu sefydliadol eu hasiantaeth.

Y tu hwnt i'r cylch gwaith hwn, bydd angen cael trefniadau gweithio diffiniedig clir gyda Byrddau Gwasanaethau Lleol, Partneriaethau Diogelwch Cymunedol a Phartneriaethau Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles.

Partneriaid Bwrdd Diogelu CWMPAS

Mae pob un o'r canlynol yn bartner y Bwrdd Diogelu mewn perthynas â Bwrdd CWMPAS:

- (a) Awdurdodau Lleol Ceredigion, Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro a Phowys;
- (b) Heddlu Dyfed Powys;
- (c) Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda a Bwrdd Iechyd Addysgu Powys;
- (ch) Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaeth Ambiwlans Cymru;
- (d) Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol;
- (dd) Cwmni Ailsefydlu Cymunedol;
- (e) Iechyd Cyhoeddus Cymru;
- (f) Comisiynu Rhanbarthol.

Strwythur ac Aelodaeth

Mae'r strwythur a'r aelodaeth arfaethedig ar gyfer Bwrdd Diogelu Oedolion Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru ac Is-Grwpiau wedi'u hamlinellu yn Atodiad 1 a 2.

Cadeirio

Bydd y Cadeirydd yn cael ei ddewis o blith asiantaethau partner. Mae rheoliad Llywodraeth Cymru yn caniatáu i Gadeiryddion gael eu penodi am hyd at 3 blynedd gyda'r

dewis i adnewyddu am 3 blynedd arall. Rhagwelir y bydd y trefniadau Cadeirio presennol yn cael eu hadolygu bob 12 mis.

Bydd y cadeirydd a'r is-gadeirydd yn perthyn i wahanol sefydliadau.

Bydd penodiad y cadeirydd neu is-gadeirydd yn dod i ben

- Os oedd y penodiad am gyfnod penodol a bod y cyfnod yn dod i ben
- Os bydd yr unigolyn a benodwyd yn ymddiswyddo
- Os nad yw'r unigolyn a benodwyd yn aelod o'r Bwrdd mwyach
- Os bydd mwyafrif yr aelodau'n penderfynu hynny

Cyfarfodydd

Bydd Bwrdd CWMPAS yn cyfarfod bob chwarter gyda'r hawl i alw cyfarfodydd arbennig fel y bo'n briodol ac yn angenrheidiol.

Bydd cyfarfodydd yn cael eu cynnal ar yr un diwrnod â chyfarfodydd CYSUR: bydd y Bwrdd Diogelu Plant Rhanbarthol a'r dyddiadau'n cael eu cytuno flwyddyn ymlaen llaw.

Bydd lleoliadau'r cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn y 4 ardal Awdurdod Lleol yn y rhanbarth yn eu tro.

Agenda ac adroddiadau

Bydd yr agenda ar gyfer pob cyfarfod yn cael ei chynllunio ymlaen llaw gan y cadeirydd. Gallai unrhyw aelod o'r Bwrdd osod eitemau ar yr agenda trwy gyflwyno adroddiad/cais ysgrifenedig o leiaf ddwy wythnos waith cyn y cyfarfod. Dylai'r adroddiad hwn fod yn y fformat a nodwyd gan y bwrdd.

Bydd yr agenda a'r papurau/adroddiadau ategol yn cael eu dosbarthu o leiaf wythnos cyn y cyfarfod.

Cofnodion/gweinyddu

Bydd cymorth gweinyddol yn cael ei ddarparu gan Uned Fusnes y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol.

Ar ddechrau pob cyfarfod, bydd y cadeirydd yn delio ag unrhyw faterion yn ymwneud â chywirdeb yn y cofnodion, ac wedyn yn eu llofnodi fel cofnod gwirioneddol. Bydd y rhain yn cael eu dosbarthu ar ôl y cyfarfod.

Cworwm

Ni fydd unrhyw fusnes yn cael ei gyflawni mewn unrhyw gyfarfod oni bai fod cworwm yn bresennol.


Cworwm fydd cynrychiolwyr o 70% o'r Aelodau sy'n Pleidleisio (sydd â hynafedd digonol).

Bydd pob un o'r sefydliadau sydd ag aelodaeth statudol yn cael un bleidlais. Pan fydd mwy nag un cynrychiolydd o sefydliad sy'n pleidleisio, disgwylir y bydd sefyllfa'r sefydliad yn cael ei ffurfio cyn pleidleisio.

Pan fydd dirprwy enwebedig yn bresennol, bydd canlyniad unrhyw bleidlais yn derfynol.

Atodiad 1:

Strwythur y Bwrdd ac Is-Grwpiau



Atodiad 2:

Aelodaeth o CWMPAS: Bwrdd Diogelu Oedolion Rhanbarthol

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn pennu partneriaid y Bwrdd Diogelu a lefelau hynafedd cynrychiolwyr partner ar Fyrddau Diogelu.

Awdurdodau Lleol – mae'r swyddogaethau statudol y dylid eu hadlewyrchu yn cynnwys

- Y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol
- Y Pennaeth Gwasanaeth ar gyfer gwasanaethau oedolion ble na chaiff y dyletswyddau hyn eu hymarfer gan y Cyfarwyddwr a nodwyd uchod

Yr Heddlu

- Uwcharolygydd neu, yn ei absenoldeb, swyddog sydd â statws Prif Arolygydd o leiaf; a'r
- Unigolyn y mae'r Prif Swyddog wedi rhoi cyfrifoldebau penodol iddo/iddi mewn perthynas ag amddiffyn plant ac oedolion.

Byrddau Iechyd

- Swyddog arweiniol y Bwrdd Iechyd ar gyfer gwasanaethau oedolion neu swyddog arall sy'n uniongyrchol atebol iddo ef neu iddi hi sydd â hynafedd digonol i weithredu fel cynrychiolydd y Bwrdd Iechyd yn lle'r swyddog arweiniol;
- Nyrs gofrestredig sydd â chyfrifoldebau penodol mewn perthynas â diogelu oedolion (Nyrs a Enwyd), a'r;
- Cyfarwyddwr Nyrsio mewn perthynas ag amddiffyn a diogelu oedolion yn ardal y Bwrdd Iechyd neu yn ei absenoldeb, y Cyfarwyddwr Nyrsio Cynorthwyol/Pennaeth Gwasanaeth y rhoddwyd cyfrifoldeb dirprwyedig iddo/iddi mewn perthynas â diogelu oedolion.

Ymddiriedolaeth GIG sy'n darparu gwasanaeth yn ardal yr awdurdod

- Cyfarwyddwr Gweithredol arweiniol yr Ymddiriedolaeth ar gyfer diogelu plant neu swyddog plant arall sy'n uniongyrchol atebol iddo ef neu iddi hi sydd â hynafedd digonol i weithredu fel cynrychiolydd yr Ymddiriedolaeth yn lle'r Cyfarwyddwr Gweithredol arweiniol.

Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol/ Cwmni Ailsefydlu Cymunedol

- Y Prif Swyddog, cyfarwyddwr, neu unigolyn sydd â hynafedd digonol i gynrychioli'r Bwrdd yn lle'r Prif Swyddog;

Yn ogystal â phartneriaid statudol, gallai Byrddau gynnwys cynrychiolwyr eraill fel y cytunwyd yn lleol. Mae aelodaeth o'r ddwy ochr yn allweddol, h.y. dylai cynrychiolydd o'r Bwrdd Diogelu Plant fod yn aelod o'r Bwrdd Diogelu Oedolion.

Presenoldeb

Mae gan y Bwrdd nifer o swyddogaethau statudol y mae'n rhaid iddo'u cyflawni, fel y'u hamlinellwyd. Mae'n bwysig fod hynafedd aelodau'r Bwrdd yn adlewyrchu'r cyfrifoldeb hwn. Disgwylir y bydd asiantaethau'n dynodi'r unigolyn priodol ar y lefel briodol i fynychu'r panel. Disgwylir y dylai hyn fod ar lefel Cyfarwyddwr/Gweithrediaeth neu gyfwerth.

Gall aelodau'r Bwrdd ddewis gwahodd aelod arall o'u hasiantaeth i fynychu'r Bwrdd gyda nhw os byddant yn teimlo yr hoffent ychwanegu gwerth at y drafodaeth a'r wybodaeth a gyflwynwyd.

Disgwylir y dylai aelodau'r Bwrdd flaenoriaethu ac ymrwymo i fynychu'n rheolaidd a chyson. Er y cydnabyddir y bydd yna achlysuron a sefyllfaoedd sy'n codi a fydd o bryd i'w gilydd yn atal aelodau'r Bwrdd rhag mynychu cyfarfodydd y Bwrdd, rhagwelir y bydd yr amgylchiadau hyn yn eithriadol. Os na fydd aelod o'r Bwrdd yn gallu mynychu cyfarfod Bwrdd, disgwylir y bydd cynrychiolydd/dirprwy enwebedig yn mynychu yn ei le/lle.

Caiff presenoldeb Bwrdd ei fonitro. Os bydd patrymau absenoldeb yn codi y mae'r Cadeirydd yn eu hystyried yn annerbyniol, bydd yn defnyddio ei ddisgresiwn i godi hyn fel testun pryder gyda Phrif Weithredwr neu unigolyn cyfwerth yr asiantaeth.

Grwpiau Gweithredol Lleol

Bydd Grŵp Gweithredol Lleol ym mhob ardal awdurdod lleol. Bydd cadeirydd pob Grŵp Gweithredu Lleol yn mynychu Bwrdd CWMPAS a bydd yn adrodd yn ffurfiol ar weithgarwch, cynnydd a meysydd risg, yn ogystal â set data gytûn.